Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Diogelwch Cymunedol yng Ngogledd Cymru

1. Rhagair

1.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Mae'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a'r ardal o Wynedd sy'n cynnwys hen ardaloedd Arfon a Dwyfor.

1.2 Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2, swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â'u rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.

1.3 Yn ystod ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2004, ceisiodd y Pwyllgor godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol a gwrando ar sylwadau pobl Gogledd Cymru ar y mater hwnnw. Caiff y pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

2. Cyflwyniadau

Yn ystod y cyfarfod, cafwyd cyflwyniadau byr gan yr amrywiol siaradwyr. Caiff copïau o'r rhain, lle y maent ar gael, eu hatgynhyrchu yn yr atodiadau.

Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru - amlinellodd eu rhaglen "Dyna Ddigon" - Mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Disgrifiodd ei amcanion i gael gwared ar ddiwylliant yr 'iob', troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i annog balchder y cyhoedd ac i sicrhau y gall y bobl wneud defnydd o fannau cyhoeddus. Amlinellodd yr amrywiol fentrau sy'n rhan o'r cynllun.

Simon Smith, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - siaradodd am gynllun rheoli risg integredig cyntaf Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gael ei gyhoeddi. Nodwyd 8 prif risg, strategaethau er mwyn ceisio eu lleihau a chynllun gweithredu i roi'r strategaethau hynny ar waith.

Carol Moore, Prif Swyddog Ardal Profiannaeth Gogledd Cymru - siaradodd am waith y Gwasanaeth Prawf i leihau aildroseddu ymysg troseddwyr a gafwyd yn euog. Yn genedlaethol, dywedodd fod y Gwasanaeth Prawf yn gweithio i leihau'r gyfradd aildroseddu o 5%, o linell sylfaen 1997, a bod y Gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ar y ffordd i gyrraedd y nod hwn.

Aneurin Owen, Cyfarwyddwr CAIS - siaradodd am y gwaith y mae ei sefydliad yn ei wneud i ddarparu a chynllunio gwasanaethau i leihau'r camddefnydd a wneir o alcohol a chyffuriau yng Ngogledd Cymru. Pwysleisiodd yr angen i wasanaethau fod yn effeithiol, yn integredig ac yn gynhwysfawr. Dywedodd fod CAIS yn ceisio targedu gwasanaethau yr oedd yn eu darparu mewn ymateb i anghenion unigolion a lle bo'n bosibl, i gael y llwyddiant mwyaf.

3. Sylwadau a fynegwyd gan y cyhoedd yn y drafodaeth

Yn ystod y drafodaeth, gwnaed nifer o bwyntiau gan y cyhoedd.

Y Cynghorydd Sir, Chris Hughes - croesawodd ymgyrch "Dyna Ddigon" a dywedodd fod mwy o waith glanhau strydoedd yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol mewn ymateb iddo. Fodd bynnag, roedd o'r farn nad oedd yn gweithio a'i fod wedi methu â lleihau'r canfyddiad o drosedd yn yr ardal. Yn ei farn ef, roedd angen gweithredu polisi dim goddefgarwch wrth blismona Bae Colwyn. Mewn ymateb, dywedodd Richard Brunstrom mai dim ond newydd ddechrau oedd yr ymgyrch ym Mae Colwyn ac felly ei bod hi'n rhy gynnar iddo ymddangos fel petai'n gwiethio'n effeithiol. Dywedodd fod yr ymgyrch yn cynnwys elfen o ddim goddefgarwch a chadarnhaodd fod yr heddlu'n gweithio o ddifrif i ddatrys y problemau y cyfeiriwyd atynt.

Glyn Jones, Aelod Cyngor Conwy a Etholwyd - croesawodd y ffaith bod y Prif Gwnstabl wedi nodi prif bryderon preswylwyr. Roedd o'r farn bod angen mwy o bwyslais ar waith ataliol ac y byddai'r heddlu yn cael mwy o effaith pe byddent yn cael eu gweld yn eu hiwnifform traddodiadol yn hytrach na mewn siacedi melyn. Roedd Richard Brunstrom yn cytuno ynghylch pwysigrwydd yr heddlu'n cael eu gweld a nododd y dylid ailgynllunio iwnifform yr heddlu i ddiwallu anghenion cyfredol yr Heddlu a'r cyhoedd.

Abdul Khan, Cynghorydd Ward Glyn - croesawodd neges "Dyna Ddigon" ac anogodd y Prif Gwnstabl i wneud mwy i hybu a hyrwyddo'r gwaith yr oeddent yn ei wneud er mwyn i bobl fod yn fwy ymwybodol ohono. Roedd gormod o bobl o'r farn bod yr heddlu'n canolbwyntio ar oryrru yn unig.

Y Cynghorydd Sir, Bob Barton o Sir Ddinbych - pwysleisiodd bwysigrwydd gwneud plant yn ymwybodol o ddiogelwch rhag tân a rôl gwerthfawr Sam Tân. Hefyd, mynegodd bryder am ddiogelwch ar y ffordd a'r ffaith bod ffyrdd o ansawdd gwael Sir Ddinbych yn cyfrannu at nifer o ddamweiniau.

Jean Davies o Ddeganwy - pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi i gyrff cyhoeddus allu rhannu gwybodaeth am unigolion sy'n debygol o fod yn destun gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys gwybodaeth am eu hiechyd. Hefyd, gofynnodd a fyddai'r Gwasanaeth Tân yn ymateb i gais i gael gwared ar beryglon tân posibl, megis tomennydd o brysgoed neu olosg sych. O ran y mater cyntaf, dywedodd Richard Brunstrom fod ganddynt beth hawl i weld data am bobl eraill ond bod cyfyngiadau, yn aml gyda rheswm da, ar yr hyn y gall asiantaethau iechyd ei rannu. Ar yr ail bwynt, dywedodd Simon Smith fod ganddynt bwerau mewn achosion eithriadol i gau adeilad neu ran o adeilad os oeddent yn credu bod perygl difrifol o dân. Fodd bynnag, roedd ei bwerau'n gyfyngedig iawn ac ni allai, er enghraifft, gael gwared ar brysgoed.

Y Cynghorydd Edwards, Cyngor Sir Conwy - er mwyn plismona cymuned, dywedodd ei bod yn bwysig rhoi mwy o adnoddau i'r gweithlu a llai i faes offer. Gan gydnabod y pryder ynghylch y gweithlu, dywedodd Richard Brunstrom eu bod yn gobeithio bodloni'r targed o gael un heddwas cymunedol ymhob ward mewn tua 18 mis.

Susheela Lourie, Cadeirydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru - holodd am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb hiliol yng Ngogledd Cymru a'u dealltwriaeth o hiliaeth yng nghefn gwlad.

Edward Morris-Jones, Cyngor Cymuned Cwm Cadnant, Ynys Môn - nododd bwysigrwydd y bartneriaeth rhwng yr Heddlu a phobl leol a'r awdurdodau lleol. Roedd yn pryderu am lefel y plismona mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig dros y penwythnos.

Geraint Roberts o Gyngor Dinas Bangor - mynegodd bryder am yr hyn a ddigwyddai i blant pan gânt eu gwahardd o'r ysgol. Roedd o'r farn mai dim ond cymorth cyfyngedig oedd ar gael gan y Gwasanaeth Prawf a bod galw am well cydweithio yn y maes hwn gydag asiantaethau'r ardal. Mewn ymateb, dywedodd Carol Moore mai swyddogaeth y Gwasanaeth Prawf yw delio â throseddwyr 18 oed a throsodd. Er eu bod yn gweithio gyda phartneriaethau timau troseddwyr ieuainc, nid oeddent yn gweithio'n uniongyrchol â throseddwyr ieuainc sy'n rhan o'r system ysgolion.

Yn dilyn hyn ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Hoffwn ymateb i bryderon Mr Roberts ynghylch disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol. Ym mis Ionawr 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gylchlythyr 1/2004 'Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion'. Mae'r arweiniad cynhwysfawr yn mynd i'r afael â'r prosesau y bydd angen eu dilyn wrth wahardd disgyblion a hefyd yr addysg a'r cymorth a ddylai fod ar gael i'r disgyblion hynny sy'n cael eu gwahardd.

Mae'r arweiniad yn cydnabod bod y ddarpariaeth addysg ran amser a ddarperir ar gyfer y disgyblion hyn yn aml yn annigonol i ddiwallu eu hanghenion addysgol ac yn golygu bod rhai o'r plant hyn yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth am gyfnodau maith yn ystod y diwrnod ysgol arferol. Am hynny felly, o fis Medi 2002 ymlaen, dylai AALlau sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg amser llawn am 15 niwrnod ar ôl cael eu gwahardd, naill ai mewn ysgol arall neu, lle bo angen, mewn Uned Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth arall.

Golyga 'amser llawn' y dylai cyfanswm oriau'r addysg dan arolygaeth a ddarperir gyfateb i'r hyn a ddarperir gan ysgolion prif ffrwd lle byddai wythnos ysgol ar gyfartaledd oddeutu 25 awr. Er hynny, mae'r Cynulliad yn cydnabod, mewn rhai achosion, y bydd angen cyflwyno addysg amser llawn yn raddol i rai disgyblion, yn arbennig lle bo'r disgyblion hynny wedi dadrithio i raddau helaeth ag addysg. Dylai'r cynlluniau ar gyfer addysg y disgyblion hynny fynd i'r afael yn arbennig â sut y bwriedir cyflwyno addysg amser llawn.

Wrth ystyried y trefniadau addysg yn y dyfodol ar gyfer unrhyw blentyn a waherddir, mae'r arweiniad yn annog AALlau i weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill yn yr ardal. Gallai hyn gynnwys gwasanaeth gwaith cymdeithasol addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysg, staff derbyn a staff polisi AAA a phenaethiaid/athrawon sydd â gofal am Uned Cyfeirio Disgyblion. Dylid gwahodd asiantaethau eraill megis y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ymuno lle bo'n briodol. Disgwylir i'r Tìm Troseddau Ieuenctid weithio gyda'r AALl, darparwyr hyfforddiant, rhwydweithiau 14-19, Partneriaethau Pobl Ifanc ac asiantaethau perthnasol eraill fel y bo'n briodol er mwyn cynnal rhaglen ddysgu a chynnal sydd wedi'i gwahaniaethu fel y bo'n gymwys. Bydd hyn o gymorth i'r holl bobl ifanc yn y System Cyfiawnder Troseddol fynnu eu hawl sylfaenol i gael gwasanaethau fel yr amlinellwyd yn "Ymestyn Hawliau".

Malcolm Roberts, Cydgysylltydd Camddefnyddio Sylweddau Cymru - tynnodd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw garchardai yn ardal Gogledd Cymru.

Yn dilyn hyn ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Mae'r prinder carchardai yng Ngogledd Cymru yn fater o bryder i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac rwyf wedi gwneud sylwadau yn ei gylch i'r Swyddfa Gartref; yn y pen draw, y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am Ystad y Gwasanaeth Carchardai.

Steve Barrett o Swyddfa Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru - croesawodd y cynnydd yn y cyflymder y caiff graffiti hiliol ei ddileu. Pwysleisiodd bwysigrwydd partneriaeth rhwng cyrff y sector cyhoeddus ond weithiau, dywedodd fod hyn yn dod yn esgus dros ddiffyg gweithredu cyflym. Er bod peth gwaith da wedi'i wneud eisoes, roedd ambell ddarn o graffiti hiliol wedi bod yn bresennol mewn rhai ardaloedd am dros flwyddyn.

Yn dilyn hyn ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Y cyngor clir gan yr Heddlu yw y dylai unrhyw un sy'n ymwybodol o graffiti hiliol wneud cwyn ffurfiol iddynt. Mae graffiti yn difetha ein cymunedau i gyd, yn tanseilio balchder yn yr ardal ac yn cynyddu'r ofn o droseddu ymysg pobl. Gan gydnabod hyn, mae cyfeiriad at graffiti yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 a gyflwynodd dirwyon ar y pryd fel cost i'r rhai yr amheuwyd eu bod yn gyfrifol am fân achosion o graffiti.

Ni oddefir graffiti hiliol ei natur ac mae'n briodol bod cosb fwy difrifol yn cael ei phennu ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywed Adran 43(2) Deddf 2003 lle bo'r graffiti yn fwy difrifol ei natur neu lle ystyrir ei fod yn ddifrod troseddol a gafodd ei ysgogi gan hiliaeth (fel y'i diffiniwyd o dan Adran 30 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998) yna rhaid ymchwilio i'r cyfryw drosedd yn drylwyr a phennir yn Neddf 1998 isafswm y dedfrydau ar gyfer y rheini a geir yn euog.

4. Sylwadau Ysgrifenedig a Chwestiynau

Gordon Millichamp, Acrefair: Beth yw barn/safbwynt y Cynulliad a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am y galw diweddar i osod systemau chwistrellu mewn gwestai, a fyddai o fwy o gymorth na synwyryddion mwg?

Ymatebodd Simon Smith:

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod o'r farn ers amser maith bod systemau chwistrellu yn fesurau cadarnhaol a phwysig wrth achub bywydau. Maent yn awtomatig. Nid ydynt yn ddibynnol ar allu unigolion i ddod o hyd i larwm a'i ganu, ac os na wnaiff ddim arall, bydd yn rheoli tân sy'n datblygu, gan amlaf gan ddiffodd y tân yn gyfan gwbl.

Yn ystod mis Hydref 2001, cyhoeddwyd "Wired for Safety". Hwn oedd adroddiad terfynol y gweithgor diogelwch rhag tân cymunedol a sefydlwyd rhwng tri Gwasanaeth Tân Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y grwpiau oedd lleihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â thân a diogelu eiddo domestig a chyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau bod y sector cyhoeddus a phreifat yn gweithio gyda'i gilydd.

Roedd argymhellion "Wired for Safety" yn cydnabod pa mor bwysig yw mesurau diffodd tân, yn enwedig systemau chwistrellu preswyl yn hytrach na dibynnu ar rybudd synwyryddion tân yn unig.

Roedd argymhellion yr adroddiad hefyd yn cydnabod pwysigrwydd systemau chwistrellu wrth gyflawni nod cyffredinol y grwpiau.

Mewn cysylltiad â systemau chwistrellu, roedd yr adroddiad yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

- diwygio ei Ofynion Ansawdd Datblygu, fel bod systemau chwistrellu yn cael eu gosod yn yr holl dai cymdeithasol newydd a adeiledir yng Nghymru o fis Mawrth 2002 ymlaen.
- rhoi arian i helpu gyda chost darparu systemau chwistrellu mewn tai amlfeddiannaeth; ac yn
- ceisio atgyfnerthu gofyniad i systemau chwistrellu gael eu gosod mewn ysgolion, neuaddau preswyl myfyrwyr, cartrefi nyrsys a chartrefi preswyl newydd.

Mae'r rhain oll a'r argymhellion eraill sy'n cyfeirio at ddiogelwch rhag tân wedi'u mabwysiadu gan y Cynulliad yn eu cyfanrwydd. Mae'r argymhellion hyn yn targedu'r mathau penodol o eiddo sy'n tueddu i beri'r pryder mwyaf i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae'r galw am systemau chwistrellu mewn gwestai, er y croesewir hyn, yn cael eu cymedroli gan y wybodaeth bod gwestai yng Nghymru ac yng ngweddill y DU wedi'u rheoleiddio'n dda a bod ganddynt enw da ym maes diogelwch rhag tân. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i fod â rhaglen arolygu ragweithiol sy'n helpu gwestywyr i gynnal safonau diogelwch.

Wrth ystyried y gost, yn enwedig i westai llai, rhaid taro cydbwysedd rhwng lleihau risg a manteision. Mae gan nifer o westai bach Gogledd Cymru yr holl fesurau ataliol angenrheidiol i sicrhau diogelwch eu gwesteion heb fod angen systemau chwistrellu. O ganlyniad, byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn croesawu dull o weithio sy'n seiliedig ar risg o ran gosod systemau chwistrellu mewn gwestai yng Ngogledd Cymru.

Y Cynghorydd Meurig Bowen-Hughes, Cyngor Tref Llangefni: Yn ei gyflwyniad, dywedodd y Prif Gwnstabl fod y rhan fwyaf o bobl Bae Colwyn yn poeni am broblemau ysbwriel (70%+) tra mai 61% oedd yn pryderu am gyffuriau. Gofynnais i glerc Cynulliad Cymru a oedd yn delio â'm cais i fynychu, i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa gyffuriau yng Ngogledd Cymru - yn enwedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Beth yw'r sefyllfa o ran "CRAC COCÊN"? Nodwyd pryder ym mhapur The Sunday Observer (dydd Sul olaf mis Mehefin) am effaith niweidiol y cyffur hwn. Byddwn yn croesawu sylwadau ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem. Rwyf hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru.

Ymatebodd Aneurin Owen: Trefnwyd cynhadledd i drafod y mater hwn gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru yn ystod mis Mai eleni. Mae copi o adroddiad y gynhadledd ar gael gan Reolwr y Gwasanaeth, Mr Dave Able Roberts: Ffôn: 01248 718030.

Yn dilyn hyn, ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Roedd adroddiad y gynhadledd yr oedd Aneurin Owen yn cyfeirio ato ar 2 Gorffennaf yn un llawn ac âi i'r afael ag effeithiau corfforol, seicolegol, biolegol, cymdeithasol a throseddol cocên. Ymdriniwyd yn fanwl â thriniaethau ynghyd â'r sefyllfa gyfredol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Yr unig ychwanegiad yw bod y Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi comisiynu arolwg stryd a fydd yn rhoi darlun mwy cyflawn ynglyn â lefel y defnydd a wneir ohono ar draws y rhanbarth. Byddwn yn annog i bobl gael golwg arno.

Shelley Webber, Y Fferi Isaf: Cydnabyddiaeth i'r Heddlu. - Richard Brunstrom – Rwy'n gynghorydd sir ward Seland yng Nglannau Dyfrdwy. Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'n Heddwas Cymunedol a'i chydweithwyr, hefyd gyda Dave Jolly, sydd wedi gweithio'n ddiflino i helpu ardal Sealand Manor, gyda phlant yn bennaf. Mae Gorsaf Glannau Dyfrdwy wedi dwyn clod i'r heddlu a dylid ei llongyfarch, nid cynnig beirniadaeth yn unig.

B Roberts, Cymorth i Ddioddefwyr, Ty'r Binwydden, Clayton Road, yr Wyddgrug, CH7 1ST: Mae cefnogi dioddefwyr ar ôl trosedd yn ymddangos fel petai'n diflannu oddi ar agendâu ac eto i gyd, mae'n hanfodol wrth leihau'r ofn o drosedd ac i leihau nifer yr adnoddau sydd eu hangen ar ofal sylfaenol y GIG/Byrddau Iechyd Lleol sy'n delio ag effeithiau niweidiol y mae'r straen o fod yn ddioddefwr yn ei greu. Onid yw'r Panel yn cytuno bod y sefydliad yn chwarae rôl allweddol wrth leihau'r ofn o drosedd? Mae gan y sefydliad cenedlaethol ymchwil a all ddangos y manteision. Ni chaiff trosedd ei ddileu byth a rhaid i ni sicrhau bod mecanweithiau cymorth yn bodoli i roi'r cymorth priodol. Rhan o ba agenda yw'r sefydliad - Iechyd, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu? Ni all y sefydliad fodoli heb arian ond eto i gyd, ni

chred un o'r asiantaethau statudol fod y sefydliad yn gweddu'n uniongyrchol i'w ffrydiau ariannu. Ffordd arall o feddwl - mae ymgyrchoedd proffil uchel yn aml yn codi ofn o drosedd drwy weithio gydag unigolyn sydd wedi bod yn ddioddefwr - mae'n golygu eu bod yn deall rhai o'r materion, yn meddu ar atebion i rai o'r cwestiynau - Mae ofni trosedd yn aros gyda'r unigolyn, ac yn ei dro, gyda'r gymuned. Gall yr effaith taflu carreg i ddwr weithio'r ddwy ffordd. Gall gweithio gyda dioddefwr fod yn arf gwerthfawr iawn wrth wneud hynny. Onid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r hyn ddywedodd David Blunkett "Nid yw'r gymuned yn gweithio os nad yw'r gymuned yn cymryd rhan". O ganlyniad, oni ddylai'r drydedd egwyddor fod yn berthnasol i faes diogelwch cymunedol? Yn Sir y Fflint, mae'r sector gwirfoddol wedi cynnal cynhadledd ar ddioglewch cymunedol am yr ail flwyddyn yn olynol - bob blwyddyn gyda gwahanol thema ar gyfer unigolion a sefydliadau o'r gymuned ac eto i gyd, yr un canfyddiadau ddaeth i'r amlwg:-

- nid yw'r gymuned yn deall diben y "partneriaethau";
- nid yw'r gymuned yn berchen ar y mentrau gan nad ydynt yn rhan o'r mentrau hynny;
- diffyg ymgynghori ar anghenion y gymuned;
- y teimlad ei fod yn ddull brig i'r bôn o weithio i fodloni agendâu'r asiantaeth statudol yn hytrach nag o'r bôn i'r brig.

Y penderfyniad unfrydol y daethpwyd iddo yn y gynhadledd ddiwethaf, lle yr oedd 70 o'r gymuned yn bresennol, oedd y "Dylai'r drydedd egwyddor fod yn weithredol ar lefel uchaf bwrdd y bartneriaeth, a dylai'r sector gwirfoddol/y gymuned fod yn rhan o grwp y strategaeth."

Yn dilyn hyn, ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio:

Mae’r posibilrwydd y bydd rhywun yn darged i drosedd ar ei isaf ers 1981. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthfawrogi’n fawr waith Cymorth i Ddioddefwyr ac mae’r cymorth ariannol a roddodd tuag at agor swyddfa gyntaf y corff yng Nghymru yn dyst i hyn. Mae’r Cynulliad yn cytuno y dylai’r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fod yn agos at y cymunedau ac adlewyrchu anghenion y cymunedau wrth iddynt gynllunio eu prosiectau.

G M Jones, Treffynnon: Sesiwn wych gyda chyflwyniadau da a chadarn gan yr holl siaradwyr ond yn enwedig gan R Brunstrom. Noder bod pawb yn ystyried y cyfryngau fel 'bête noire'. Roedd Aelodau Cynulliad yn rhan o'r gynulleidfa fel ni ac nid oedd eu cyfranogiad yn denu sylw, ond i fod yn deg, roedd eu presenoldeb yn gyfle i gynnal cyfarfod da a chadarnhaol - trueni nad oes modd dosbarthu'r negeseuon ymysg y gymuned yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru.

Linda Hughes, Bae Colwyn: Hoffwn ofyn pam fod gorsaf yr heddlu ym Mae Colwyn (Ffordd Rhiw) yn cau mor gynnar yn ystod y dydd? Hefyd, ychydig wythnosau yn ôl, pan oeddwn yn ceisio ffonio rhif lleol yr Heddlu a methu â chael ateb, ffoniais 999 a chael ffrae am wneud! Ffoniais CIS. Roeddwn o'r farn fod plant 13-14 oed a oedd yn yfed ac yn cymryd cyffuriau, yn rhedeg i ganol y stryd, yn mynnu presenoldeb yr Heddlu! Hyd yn oed wedyn, ni ddaeth Heddwas yno.

Y Cynghorydd Christine Gilligan, Deganwy: Mae'r cyhoedd yn ystyried bod y Gwasanaeth Prawf yn cymryd ochr y dioddefwyr. Pam na chyhoeddwch chi fanylion prosiectau y bu pobl sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cymunedol yn ymwneud â hwy yn y wasg leol bob wythnos? Rydym yn gweld ysbwriel ymhob man - mae gerddi'r henoed angen eu trin ac mae angen mynd â chwn am dro ac ati. Pam na ddywedwch chi wrthym ni beth y mae'r troseddwyr hyn sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cymunedol yn ei wneud fel rhan o'u cosb am eu hymddygiad gwrthgymdeithasol.

5. Gweithredu

Gwahoddwyd y siaradwyr a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, fel y bo'n briodol, i roi sylwadau ar y materion hyn. Gwelir eu sylwadau fel y nodir uchod. Hefyd, rhoddir copïau i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cymru.gov.uk Os hoffech gael copi caled, anfonwch ebost i NWales.regcomm@wales.gsi.gov.uk neu cysylltwch â Paul Davies ar 029 2089 8429.

Carl Sargeant AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Atodiadau

A) - Diogelwch Cymunedol – Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl

B) Cyflwyniad y Gwasanaeth Prawf - Cyfraniad y gwasanaeth prawf i ddiogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru

C) CAIS Ltd